

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru Welsh Water ('Dŵr Cymru') 2016

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru Welsh Water, y cynnydd da y mae wedi'i wneud, a pha welliannau pellach yr hoffem eu gweld.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynnal rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

Fel rheoleiddiwr, rydym am sicrhau bod y sawl rydym yn eu rheoleiddio yn gymwys i wneud y peth gorau.

Bob blwyddyn, rydym yn asesu perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru.

Rydym yn defnyddio methodoleg Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd fel y gallwn feincnodi perfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn Lloegr.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gwmni Dŵr Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwybodaeth amgylcheddol hefyd ar gwmni Severn Trent Water i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth ynghylch perfformiad Severn Trent Water, ewch i wefan.gov.uk.

Fel offeryn adrodd, mae'r wybodaeth o fewn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi bod yn hanfodol wrth wella perfformiad cwmnïau dŵr ers iddo gael ei gyflwyno yn 2011. Mae Dŵr Cymru wedi symud o fod yn gwmni a oedd wedi perfformio'n wael yn 2011 i gwmni sy'n perfformio'n dda yn 2016.

Crynodeb o berfformiad Dŵr Cymru yn Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol 2011–16, gan ddefnyddio canllaw diwygiedig yr asesiad

| | Original EPA | | | | | Revised EPA | |
|--|--------------|------|------|------|------|-------------|------|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2015E | 2016 |
| Pollution Incidents (sewerage) Category 1-3 incidents per 10,000 km of sewer | 132 | 110 | 66 | 59 | 59 | 30.4 | 29.8 |
| Serious Pollution incidents (sewerage) Category 1-2 incidents per 10,000 km of sewer | 2.2 | 3.3 | 1.1 | 2.2 | 1 | 0.6 | 0.6 |
| Discharge Permit Compliance (STWs & WTWs) % | 95.6 | 98.6 | 97.7 | 97.8 | 98.6 | 97.1 | 99.0 |
| Satisfactory Sludge Use/Disposal % | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Self Reporting of Pollution Incidents % | 37 | 47 | 48 | 60 | 74 | 74 | 68 |
| AMP National Environment Programme Delivery % of planned delivery | 87 | 116 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Security of Supply Index (SoSI) | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | 100 | 100 |
| Rating | * | *** | *** | *** | *** | *** | *** |

The column headed 2015E this refers to the 2015 data set which has been assessed using the new EPA criteria (2016 – 2020) included for comparison purposes only.

| Calculation of EPA star rating for the 2016-17 performance round using 7 metrics | | |
|--|----------------------|---|
| 4 star | Industry Leading | 6 or more green metrics |
| 3 star | Good | 3 or more green metrics and no red metrics |
| 2 star | Requires Improvement | 1 or 2 red metrics and/or 2 or less green metrics |
| 1 star | Poor | 3 or more red metrics |

Dadansoddiad o berfformiad amgylcheddol ar gyfer 2016

- Yn 2016, gwnaeth Dŵr Cymru lwyddo i gael gradd perfformiad o 3* yn ôl yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae hyn wedi cael ei gynnal ers 2012.
- Mae cyfanswm nifer y digwyddiadau cyffredinol wedi aros yn eithaf sefydlog yn ystod y tair blynedd diwethaf, er y bu cynnydd bychan yn 2016 i 114 o 109 (Ffigur 1).
- Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn asesu digwyddiadau sy'n ymwneud â charthion. Bu lleihad yn nifer y digwyddiadau llygredd a oedd yn ymwneud â charthion (Categori 1 – Categori 3) i 107 o 109 yn 2015 (Ffigur 2). Dyma'r nifer isaf erioed ac mae'n profi bod ymyriadau i atal digwyddiadau llygredd yn gweithio.
- Mae digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2) sy'n ymwneud â charthion wedi aros yr un peth a chofnodwyd dau ddigwyddiad yn 2015 a 2016.
- Yn 2016, dim ond tri allan o 567 o weithfeydd trin carthion a wnaeth fethu â bodloni'r symiau a nodir yn eu trwyddedau gollwng. Mae cydymffurfiaeth bellach wedi cyrraedd 99.5%, wedi'i chynyddu o 98.6% yn 2015, a dyma'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth dros dymor hir (Ffigur 3).
- Yn 2016, dim ond tri allan o'r 51 o weithfeydd trin dŵr a wnaeth fethu â bodloni'r symiau a nodir yn eu trwyddedau gollwng. Mae cydymffurfiaeth bellach wedi cyrraedd 94.1%, wedi'i chynyddu o 80.4% yn 2015, a dyma'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth dros dymor hir (Ffigur 4).
- Mae asesiad diwygiedig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer safleoedd sy'n ymwneud â charthion a gweithfeydd trin dŵr yn rhoi canlyniad cyffredinol o 99% ar gyfer cydymffurfiaeth gyfunol. Mae cydymffurfiaeth â thrwyddedau yn ofyniad statudol, felly gofynnwn i Dŵr Cymru gyrraedd lefel gydymffurfiaeth o 100% i leihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd.
- Mae Dŵr Cymru wedi gwyrddroi eu prosesau hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd ers 2010. Yn 2016, gwnaeth canran y digwyddiadau a gafodd eu hunanadrodd ddisgyn am y tro cyntaf i 68%, o gymharu â 74% yn 2015 (Ffigur 5).
- Roedd gollyngiadau gan y cwmni ar gyfer 2015–16 ar 179.9 MI/d, a oedd wedi cynyddu gan 0.4MI/d (0.2%) ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae lefel y gollyngiadau a adroddwyd yn llai na tharged y Lefel sy'n Economaidd Gynaliadwy ar gyfer Gollyngiadau, sef 180.6MI/d, a nodwyd yng nghynllun rheoli adnoddau dwr Dŵr Cymru ar gyfer 2015–16.
- Roedd defnydd fesul pen, sef y maint o ddŵr a ddefnyddiwyd ar gyfartaledd fesul pob unigolyn, tua 142.8 l/h/d yn 2015/16, a oedd yn debyg i werth y defnydd fesul pen yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y defnydd fesul pen a fesurwyd yn 113 l/h/d a'r defnydd fesul pen heb ei fesur yn 157 l/h/d. Roedd y ddau werth hyn hefyd yn debyg i'r gwerthoedd yn y flwyddyn flaenorol. Canran y cwsmeriaid sydd â mesurydd dŵr yw oddeutu 37%.
- Mae'r Mynegiad Sicrwydd Cyflenwad wedi cael ei gynnwys yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer y tro cyntaf, a gwnaeth y mesur hwn asesu'r maint o ddŵr a ragwelwyd y byddai ar gael yn erbyn galw gwirioneddol cwsmeriaid, gan nodi sgôr o 100 ar gyfer 2016.


- Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth perygl llifogydd – mae Dŵr Cymru wedi ymgysylltu'n llawn â'u gofynion dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.
- Cydymffurfiaeth â gofynion llif – gwnaed gwelliannau sylweddol o ran ailardystio offer i fesur llifoedd trwy weithfeydd trin carthion, gan ganiatáu cydymffurfiaeth â'r llifoedd a ganiateir i gael ei hasesu.
- Roedd 100% o welliannau a gynlluniwyd i asedau Dŵr Cymru, a oedd i'w cwblhau yn ystod 2016/17, wedi cael eu cwblhau mewn da bryd. Bydd y gwelliannau hyn yn golygu y bydd asedau yn bodloni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau o ran ansawdd y dŵr.
- Mae defnyddio slwtsh a'i waredu wedi parhau ar 100%.
- Gorfodi – yn ystod 2016, gwnaeth Dŵr Cymru dderbyn pedwar rhybudd ffurfiol. Mewn tri achos, roeddent yn ymwneud â digwyddiadau lle gwnaeth y cwmni fethu â chydymffurfio ag amodau trwydded ac, mewn achos arall, roedd o ganlyniad i ddeunydd llygrol.

Disgwyliadau perfformiad yn y dyfodol


Ar y cyfan, rydym yn falch bod Dŵr Cymru yn parhau i fod yn gwmni sy'n perfformio'n dda ond mae meysydd y gellid eu gwella. Erbyn 2020, hoffem i Dŵr Cymru anelu at fodloni statws uchaf yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer cwmni blaenllaw trwy gyflenwi'r canlyniadau canlynol:

- Lleihad pellach yn niferoedd y digwyddiadau llygredd
- Anelu at gael dim digwyddiadau llygredd difrifol o gwbl
- Cydymffurfiaeth o 100% â thrwyddedi amgylcheddol
- Cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau llygredd sy'n cael eu hunanadrodd yn unol â'r sector diwydiant dŵr
- Bodloni targedau y Mynegiad Sicrwydd Cyflenwad ac ar gyfer gwaredu ar slwtsh
- Parhau i gyflenwi cynlluniau gwella i fodloni'r dyddiadau cau a bennwyd


Ffigur 1




Ffigur 2



Ffigur 3



Ffigur 4



Ffigur 5

Percentage of incidents self reported

